# Swydd-ddisgrifiad Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Gwaith Achos** |
| **Band cyflog:** | **Band 3** |
| **Ystod cyflog:**<br>**(pro-rata)** | **£26,345 - £33,873**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Swyddog Cyswllt Cymunedol a Gwaith Achos** |
| **Cyfeirnod:** | *CBA i'w gwblhau* |
| **Swyddfa:** | **Llyr Gruffydd AS** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl weithio y tu allan i'w oriau gwaith arferol yn achlysurol. |
| **Natur y penodiad:** | **Parhaol**<br>Fel Aelod o'r Senedd, rwyf yn dal swydd fel cynrychiolydd etholedig. Pan fydd fy nghyfnod fel Aelod o'r Senedd yn dod i ben, bydd y swydd hon yn dod i ben. |
| **Lleoliad:** | **Swyddfa Etholaeth yr AS yn Rhuthun**<br>Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl ymweld ag amrywiaeth o leoliadau ar draws fy etholaeth, gan gynnwys lleoliadau gwledig, lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael, o bosibl. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran. |
| Sylwer, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Ynglŷn â’r rôl

| Gwaith Achos |
| --- |
| Mae deiliaid swyddi gwaith achos yn gyfrifol am ymdrin ag ystod eang o ohebiaeth a gwaith achos ar lefel sy’n berthnasol i’r band cyflog. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith dilynol ar ymholiadau a godwyd gan etholwyr unigol neu grwpiau ymgyrchu/lobïo, gohebu ar ran yr Aelod a chyfeirio ymholwyr at ffynonellau priodol o wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Bydd deiliaid swyddi yn siarad ag etholwyr sy'n gwneud cwynion a gallant, ar eu rhan, fynd at sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol, e.e. y GIG neu adrannau llywodraeth leol, i gefnogi'r etholwr i ddatrys problemau a materion a godwyd.<br><br>At hynny, gall trefniadaeth, a chyfranogiad mewn, digwyddiadau ymgysylltu â’r cyhoedd megis cymorthfeydd neu weithgareddau etholaethol eraill fod yn rhan o’r rolau hyn.<br><br>**Dyma nodweddion allweddol rôl gwaith achos:**<br>• Sicrhau bod pob achos yn cael ei symud ymlaen yn brydlon ac mewn modd cymesur, a bod pob un yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd.<br>• Rheoli llwyth achosion, gyda goruchwyliaeth gefnogol sy'n briodol i lefel y rôl.<br>• Casglu gwybodaeth briodol i lunio adroddiadau ysgrifenedig ffeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Cadw cofnodion cywir a chyfredol a thrywyddau archwilio yn unol â gofynion diogelu data.<br>• Cyfathrebu'n effeithiol â phob parti ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Ymateb i ystod eang o ohebiaeth gyffredinol, gan ymchwilio i ymholiadau ac ymateb iddynt yn ôl yr angen.<br>• Sicrhau bod gwaith yr Aelod yn cael ei hyrwyddo drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau priodol megis cymorthfeydd neu ddigwyddiadau cymunedol. |
| **Diben y swydd** |
| Byddai **Swyddog Gwaith Achos Band 3** sy’n gweithio i Aelod o'r Senedd fel arfer yn gyfrifol am gynorthwyo etholwyr gyda materion y maent yn eu hwynebu ac am sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol gan asiantaethau'r llywodraeth, cynghorau lleol a sefydliadau eraill. |

# Manyleb y person

**Sgiliau ac ymddygiadau**

*Ei newid yn ôl yr angen:*

- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da er mwyn delio efo rhanddeiliaid/etholwyr a drafftio gohebiaeth.
- Disgwylir iddynt fod yn hyddysg mewn maes gwaith gweinyddol neu ymarferol; gallu ateb ystod safonol o ymholiadau gan eraill a gwybod pryd i atgyfeirio ymholiadau mwy cymhleth.
- Disgwylir iddynt fod yn hyddysg gyda'r adnoddau a'r offer arferol ar gyfer y swydd e.e. pecynnau meddalwedd safonol, a bod yn gyfarwydd â’r cyfryngau ar-lein.
- Sgiliau trefnu a chynllunio effeithiol.
- Y gallu i ddangos sensitifrwydd ac i sicrhau bod y safonau cyfrinachedd uchaf yn cael eu cynnal.
- Dealltwriaeth o’r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i’r materion hyn.
- Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm bach.

**Gwybodaeth a phrofiad**

- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion sy’n berthnasol i’r ardal leol.
- Gwybodaeth am arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.
- Profiad a dealltwriaeth ymarferol o arfer da sy’n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.
- Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy’n agored i niwed.

**Meini prawf dymunol**

- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy’n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.
- Yn arddel amcanion a gwerthoedd Plaid Cymru.
- Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith.

| Cymwysterau |
|---|
| • Y gallu i ddangos gwybodaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol – e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, **neu brofiad arall addas**. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ac fe'u haseswyd fel a ganlyn:<br>o Gwrando: Canolradd<br>o Siarad: Canolradd<br>o Darllen: Canolradd<br>o Ysgrifennu: Canolradd<br>• Caiff y sgiliau hyn eu hasesu fel rhan o'r broses ddethol. |

**Gwybodaeth ychwanegol am lefelau sgiliau iaith**

| | Cyfateb yn fras i | Gwrando | Siarad | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolradd** | Canolradd | Yn deall y rhan fwyaf o sgyrsiau a chyfarwyddiadau yn weddol hyderus. | Yn gallu cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl yn weddol hyderus. | Yn deall y rhan fwyaf o destun yn weddol hyderus. | Yn gallu ysgrifennu testun, gan gynnwys gohebiaeth sylfaenol, yn weddol hyderus. |

# Prif ddyletswyddau

**Ymdrin â gwaith achos etholwyr**

- Cynorthwyo’r Aelod i adeiladu a chynnal perthynas gref gydag ystod eang o randdeiliaid yn yr etholaeth (yn cynnwys cyrff cyhoeddus, busnesau a mudiadau lleol) gan gefnogi eu gwaith ac ymgyrchoedd lleol.
- Ymateb i waith achos ac ymholiadau eraill gan etholwyr.
- Cofnodi a dilyn hynt achosion gan ddefnyddio system rheoli achosion i sicrhau camau dilynol amserol. (Gellir darparu hyfforddiant).
- Mynychu cyfarfodydd gyda neu ar ran yr Aelod.
- Ymchwilio i faterion a chysylltu ag adrannau'r llywodraeth, cynghorau ac asiantaethau ar ran etholwyr.
- Cynllunio a rheoli eu llwyth gwaith eu hunain yn unol ag anghenion yr Aelod.

**Cyngor ac eiriolaeth**

- Darparu cyngor sylfaenol a gwasanaeth cyfeirio i etholwyr ar faterion fel tai, mewnfudo, lles, budd-daliadau ac iechyd.
- Uwchgyfeirio achosion cymhleth i uwch-weithwyr achos neu'r Aelod pan fo angen.
- Sicrhau bod etholwyr yn ymwybodol o’u hawliau a’u cyfeirio nhw at wasanaethau cymorth perthnasol pan fo’n briodol.

**Cymorth gweinyddol**

- Cynnal cofnodion cywir a chyfrinachol o achosion etholwyr yn unol â chyfreithiau diogelu data.
- Trefnu cyfarfodydd rhwng etholwyr a'r Aelod neu uwch-staff.
- Efallai drefnu digwyddiadau megis cymorthfeydd neu ymweliadau ar gyfarwyddyd yr Aelod.
- Drafftio a phrawfddarllen gohebiaeth ar gyfer yr Aelod.
- Delio gydag unrhyw faterion gweinyddol eraill ar gais.

**Rhwymedigaethau yn y gweithle**

**Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**

- Cefnogi a chynghori'r Aelod  i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

| |
|---|
| **Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>Gellir ddarparu hyfforddiant ar yr uchod. |
| **Arall** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau'n gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod. |